Gwefan
www.ysgolgymraeg.com

e-bost
prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Ysgol Gymraeg
Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / *Tel:* 01970 617613 Ffacs / *Fax:* 01970 636742

Prifathro / *Headteacher:* Mr R. Clive Williams

**Parêd Dydd Gŵyl Dewi** – mi fydd disgyblion Blynyddoedd 3, 4, 5 a 6 yn cymryd rhan yn yr orymdaith ar ddydd Gwener, Mawrth 1af. Mi fyddwn yn gadael yr ysgol am 12.30 ac yn cwrdd ger y cloc ar dop y dref erbyn 1 o'r gloch. Yn dilyn yr orymdaith drwy'r dre gwahoddwyd yr ysgol i ganu ychydig o ganeuon ger y bandstand fel rhan o agoriad swyddogol Ras Gŵyl Dewi ar y Prom am 2 o'r gloch.
Gofynnir i bawb wisgo gwisg sy'n cynrychioli Cymru - cofiwch wisgo'n gynnes a dod â chot law. Mi fyddwn yn dychwelyd i'r ysgol cyn 3.30.

**Ras Gŵyl Dewi** – os oes disgyblion yn dymuno cymryd rhan yn y rasys sy'n cychwyn tua 2.15 yna mae croeso i rieni / gwarcheidwaid eu casglu ger y bandstand yn dilyn y canu am 2 o'r gloch. Mi fydd hi'n bwysig iawn eich bod yn rhoi gwybod i athro / athrawes eich plentyn ymlaen llaw os fyddwch yn gwneud hyn.
Mae ras ar gael i Flwyddyn 2 ac iau (gweler manylion trosodd gan fenter Aberystwyth) Mae croeso i rieni gasglu'r plant o'r ysgol ar gyfer cymryd rhan yn y weithgaredd – cofiwch fod angen gwisgo lan mewn rhyw fath o wisg Gymreig!

**Raffl y Prynhawn Coffi** – cofiwch gefnogi'r Prynhawn Coffi ar ddydd Mercher, Mawrth 13eg am 3.45 – gobeithio y bydd modd i chwi gefnogi'r Gymdeithas Rieni ac Athrawon drwy werthu ychydig o docynnau raffl a'u dychwelyd gyda'r arian erbyn dydd Llun, Mawrth 11eg (rhagor o fanylion i ddilyn).

**Casgliad ailgylchu dillad Bags2school** – mi fydd casgliad arall ar fore dydd Llun, Mawrth 11eg am 9 o'r gloch. Derbyniodd yr ysgol siec o £350 yn dilyn y casgliad diwethaf felly gwerthfawrogir gymaint a phosib o gyfraniadau mewn unrhyw fag plastig.

***St David's Day Parade** - years 3, 4, 5 and 6 pupils will be taking part in the parade on Friday, March 1st. We will leave school at 12.30 and meet at the clock on the top of town by 1 o'clock. Following the parade the school has been asked to sing a few songs as part of the opening ceremony of the St David's day race at 2 o'clock by the bandstand. Everyone is asked to wear clothes that represent Wales – make sure that you wear warm clothes and remember a raincoat. We will return to school by 3.30.*

***St David's Day Race** – if pupils wish to take part in the races that start at around 2.15 then parents / guardians are invited to collect children from the Bandstand following the singing at 2 o'clock. It is very important that you inform your child's teacher before hand if you decide to do this.*
*There is also a race for children Year 2 and under (please see details provided by Menter Aberystwyth) – parents are welcome to collect pupils from school in order to take part in this activity. Please remember to wear some kind of welsh costume.*

***PTA Coffee Afternoon Raffle** – please remember to support the PTA Coffee Afternoon on Wednesday afternoon, March 13th at 3.45. I hope that you will be able to sell some raffle tickets and return them with the money by Monday, March 11th.*

***Bags2school clothes recycling collection** – there will be another collection on Monday morning, March 11th at 9 o'clock. The school received £350 following the last collection so please contribute as much as you can in any type of plastic bag.*

**R C Williams, Pennaeth 26/02/2013**